

CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN
COFNODION CYFARFOD MAWRTH 2023
6 Mawrth 2023 18.30 yn Y Ganolfan, Llanfrothen

1. Presennol

Elin Jones, Glyn Griffiths, June Jones, Glyn Griffiths, Cenwyn ap Tomos

Clerc: Huw Rowlands

Cadeirio: Nia Povey

2. Ymddiheuriadau

Bethan Gritten, Siân Cwper

3. Datgan Diddordeb/Buddiant Personol

Dim

4. Cadarnhau Cofnodion Misol 16 Ionawr 2023

Cynnig: Nia Povey

Eilio: Elin Jones

5. Cyflwyniad a Chwestiynau i Gynrychiolwyr y Grid Cenedlaethol

Mynychodd Stuart Fox o'r Grid Cenedlaethol, er mwyn egluro a thrafod prosiect y Grid Cenedlaethol i gladdu peilonau o dan yr afon Glaslyn.

Mae gwaith cychwynnol wedi dechrau, gan gynnwys trafodaethau efo tiffeddianwyr, cynnal arolwg o'r tir ac yn y blaen. Gobeithir dechrau ar y gwaith yn llawn, fydd yn bennaf yn cynnwys gwaith twnelu o dan y Glaslyn, yn hwyrach yn ystod 2023, gyda'r bwriad o dynnu'r peilonau erbyn 2029.

Y bwriad yw y bydd yna gydweithio agos rhwng y Grid Cenedlaethol ac ysgolion a cholegau lleol.

Bydd Canolfan Gwybodaeth yn cael ei sefydlu ar gyfer y prosiect.

Y Prif bryderon sydd wedi cael eu mynegi yw traffig, sŵn, gwastraff a'r cyfleoedd gwaith fydd ar gael i bobl lleol.

Bydd Cylchlythyr yn rhoi diweddariad ar y prosiect yn cael ei gyhoeddi nesaf yn Ebrill 2022.

Bydd y Grid Cenedlaethol yn danfon dolen ar gyfer eu Rhaglen Grant Cymunedol maes o law.

Bydd hefyd gwahoddiad i Gyngor Cymuned Llanfrothen i gyfarfod nesaf y Grŵp Cyswilt Cymunedol, sy'n debygol o fod yn ystod mis Mehefin.

Ategwyd fod croeso i unrhyw un gysylltu efo'r Grid Cenedlaethol am fwy o wybodaeth ar unrhyw ran o'r prosiect ar unrhyw adeg.

6. Materion yn codi o'r Cofnodion

6.1 Cais Cynllunio Carreg Frech

Parheir i ddisgwyl i glywed ymhellach gan Barc Cenedlaethol Eryri ar y mater yma.

6.2 Y Ganolfan

Cytunwyd i newid y cyflenwr trydan o Scottish Power i yu Energy . Mae'r pris yr uned a'r tâl sefydlog yn sylweddol rhatach.

Trwsiodd gynrychiolydd o Dŵr Cymru sistern y toiled ar y llawr gwaelod.

Mae dŵr hefyd wedi bod yn gollwng o gymal pibell ddŵr yn y gegin ond mae'n bosibl mai clo awyr sy'n achosi hyn. Cytunwyd i fonitro'r sefyllfa.

Bydd dosbarth Yoga yn dechrau'n fuan yn Y Ganolfan, a byddant yn talu £10 am logi'r Ganolfan am awr a hanner. Cytunwyd i adolygu'r pris wedi 6 mis.

Mae yna lawer o drugareddau ac eitemau yn yr ystafell ar y llawr gwaelod sydd angen eu gwaredu neu eu clirio. Gall rhai pethau fynd i siop elusen, ond bydd angen lluchio'r gweddill, neu ofyn i Gyngor Gwynedd eu casglu.

6.3 Goryrru Llanfrothen a gosod cyflymder 20 m.y.a.

Mae'r Clerc wedi llythyru efo Cyngor Gwynedd nifer fawr o weithiau ar y mater yma yn eu hatgoffa o'u haddewid i osod marciau ar ochr y ffordd yn Llanfrothen, a'r ateb yw bod y mater ar restr waith y contractwyr marcio ffyrdd.

Gofynnwyd i'r Clerc holi pryd y gall Gan Bwyll fynychu i oruchwyllo cyflymder traffig yn Llanfrothen

6.4 Maes Chwarae Llanfrothen

Cytunwyd i ohirio trafodaeth ar y mater yma tan y cyfarfod nesaf, gan nad oedd y Cyngorydd Bethan Gritten yn bresennol.

5.5 Mynwent Tan Lan

Mae Dylan Edwards wedi cytuno i dorri gwair y fynwent am yr un pris â'r llynedd, sef £1,800 am 6 toriad y flwyddyn o gwmpas y cerrig bedd a 2 doriad o weddill y fynwent y flwyddyn.

Gofynnwyd hefyd iddo roi gwybod pan fydd wedi gwneud toriad, a hefyd torri ochrau'r llwybrau a rhoi sylw i'r rhesi rhwng yr hen feddi pan yn briodol.

Cytunwyd i edrych ar gynllun gwirfoddolwyr i dacluso'r fynwent yn yr haf Mae angen gosod canllaw ar y grisiau yn y fynwent. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu ag Alun a osododd ganllaw ar y grisiau y tu ôl i'r siop yn Llanfrothen.

Cynhaliodd y Cynghorydd Nia Povey a'r Cynghorydd Glyn Griffiths asesiad risg yn y fynwent, ac yn benodol asesiad risg o'r cerrig beddau. Mae 4-5 o'r cerrig ychydig yn rhydd neu braidd yn sigledig, ac felly bwriedir eu gosod ar y llawr.

6.6 Clymog Siapan, Pont Haearn, Afon Caseg

Ysgrifennwyd at Gyfoeth Naturiol Cymru yn nodi fod clymog siapan yn tyfu ar lan yr afon Caseg ynghanol pentref Llanfrothen. Atebodd Cyfoeth Naturiol Cymru drwy ddweud mai cyfrifoldeb y perchennog tir yw delio â chlymog siapan.

Awgrymodd y Cynghorydd Glyn Griffiths y dylid cysylltu efo Cyfoeth Naturiol Cymru unwaith eto gan fod yna is-ddeddfwriaeth o dan y Land Drainage Act 1991, sy'n rhoi dyletswydd ar Gyfoeth Naturiol Cymru i glirio tyfiant sydd o fewn 10m i ochr yr afon.

6.7 13 Garreg Frech

Cytunodd y Cynghorydd June Jones holi adran drethi Cyngor Gwynedd am ddiweddariad ar eu cais i osod gorchymyn arwystl ar yr eiddo.

6.8 Cysgodfan Fws Llanfrothen

Cynigiodd y Cynghorydd Bethan Gritten fod leuan yn gwneud cynlluniau dechreuol ar gyfer y gysgodfan. Cynllun syml fyddai ei angen, yn darparu lloches rhag y gwynt a'r glaw.

Cytunodd y Cynghorydd Nia Povey drafod y mater ymhellach efo'r Cynghorydd Siân Cwper ac Ymddiriedolaeth Brondanw cyn y cyfarfod nesaf.

6.9 Tafarn y Ring

Mae Liz Saville Roberts A.S. A Mabon ap Gwynfor Aelod o'r Senedd wedi ysgrifennu at Robinsons.

Deallir fod gan Robinsons denantiaid posibl sydd wedi dangos diddordeb, ond neb pendant hyd yn hyn.

Mae Ymddiriedolaeth Brondanw wedi cytuno i edrych ar delerau'r les sydd rhyngddynt a Robinsons er mwyn gweld pa opsiynau eraill sy'n bosibl, er mwyn sicrhau dyfodol hyfyw i'r dafarn.

7. Materion Ariannol

7.1 Cyflog Clerc Ionawr 2023 £239.72

TWE 59.80

Cyflog Clerc Chwefror 2023 £239.72

TWE 59.80

7.2 Dunn & Ellis - £59.40

7.3 Tâl claddu llwch Michael Kerr Anfoneb 26 Ionawr 2023 - £460.00

7.4 Aelodaeth Un Llais Cymru 2023/24 - £94.00

7.5 Costau HSBC Ionawr a Chwefror 2023 - £16.00

7.6 Balans yn y prif gyfrif 28 Chwefror 2023 £16,448.20

Balans yn y cyfrif cadw 28 Chwefror 2023 £21.196.06

8. Gohebiaeth

Prosiect Ardaloedd Cadwraeth - Sesiwn galw i mewn Plas Tanybwllch 11 Mawrth 2023. Derbyniwyd er gwybodaeth

9. Cynllunio

Dim

10. Materion Eraill

10.1 Risg Llifogydd Porthmadog

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n edrych ar y risg i Borthmadog o lifogydd yn y dyfodol.

Mynegodd y Cynghorydd Glyn Griffiths, y gallai unrhyw argymhellion i amddiffyn Porthmadog rhag llifogydd yn y dyfodol effeithio ar Lanfrothen.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyfoeth Naturiol Cymru gan nodi pryder ar yr effaith posibl ar dai yn Llanfrothen os bydd cynllun diogelu Porthmadog yn gadael i fwy o'r môr ddod i mewn i'r tir.

10.2 Rhoddion Ariannol

Cytunwyd i roi'r rhoddion canlynol :

- Ysgol y Garreg, Llanfrothen - £50
- Papur Bro'r Wylan - £50
- Clwb Ffermwyr Ifanc Meirionnydd - £50

10.3 Cadarnhau Cofrestr Risg 2023/24

Cadarnhawyd y gofrestr risg ar gyfer 2023/24, gam awgrymu fod y Clerc yn edrych ar y dull gorau o gadw dogfennau yn y cwmwl, fel ei bod hi'n bosibl cael mynediad iddynt o unrhyw le.

Cynnig: Glyn Griffiths

Eilio: Nia Povey

10.4 Llwybr Llanfrothen i Benrhyndeudraeth

Gofynnwyd i'r Clerc ofyn i Gyngor Gwynedd am gopi o'r cynlluniau dichonoldeb ar gyfer llwybr posibl rhwng Llanfrothen a Phenrhyndeudraeth, fel ei bod hi'n bosibl trafod y cynllun ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

Dyddiad y cyfarfod nesaf – i'w gytuno